## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun, ddydd Mercher 15 Mehefin 2011 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorydd S Thomas, (Cadeirydd) I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, W L Cowie (arsylwi), J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, G C Evans, H H Evans (aelod lleol), R L Feeley, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, H Ll Jones, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D A J Thomas, C H Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (Graham Boase), Prif Gyfreithiwr (Susan Cordiner), Rheolwr Rheolaeth Datblygiad (P Mead), Arweinydd Tîm (Proses Pwyllgorau) (I Weaver), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmer (J Williams) a Chyfieithydd (C Gilkes)

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr J Thompson Hill, D I Smith, G Kensler, I Gunning, E R Jones, J Butterfield, R W Hughes, M J Eckersley, P A Dobb

### 85 DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu rai oedd yn rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a enwyd i gael ei drafod yn y cyfarfod hwn. Datganodd Cynghorydd Selwyn Thomas fuddiant mewn eitemau.

47/2010/0887 (Corn Bwch, Waen, Llanelwy) a hefyd

47/2011/0399 (Parc Carafanau Carmel, Bryniau, Dyserth)

### 86 EITEM FRYS

**FFERM WYNT MYNYDD MYNYLLOD**
**ADRODDIAD O'R WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Cylchredwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am amserlen Scottish Power ar gyfer symud ymlaen gyda'u cynigion ar gyfer datblygiad Fferm Wynt i'r gorllewin o Landrillo.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Cynllunio'n cytuno gyda'r rhain:*

*a.* *Yr egwyddor o gael Cytundeb Gweithio ar y Cyd gyda swyddogion yng Ngwynedd ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri ar drin y tasgau perthnasol cyn gwneud cais ac ar ôl cyflwyno i'r IPC ar y cynllun Fferm Wynt*

*b.* *Yr egwyddor o gael ffurf o Gytundeb Cynllunio lle mae Scottish Power yn ariannu asesiad technegol yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'u Hasesiad o Effaith Amgylcheddol*

*c.* *Sefydlu fforwm anffurfiol o swyddogion/aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r cais yn dod ymlaen. Gwahodd enwebiadau ar gyfer bod arno.*

### 87 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd yn gynharach) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd roedd angen eu penderfynu gan Bwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u gwelwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a bod caniatâd neu wrthodiadau, yn ôl fel y bo'n digwydd, yn cael eu rhoi fel sy'n briodol o fewn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbyseb Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad oedd yn cael ei gynnig gan y cynlluniau a ganlyn o gofio'r amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd ar yr adeg honno:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 06/2011/0249/PFT | Ar ôl ystyried adroddiad ar ymateb i'r cyhoeddusrwydd a llythyrau ychwanegol o sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Corwen a saith llythyr o gefnogaeth.<br>Codi 2 dyrbin gwynt 55kw, gydag uchder o 46 metr o'r ddaear i flaen y llafn, a gwaith cysylltiedig<br>**Tyn y Celyn, Gwyddelwern, Corwen**<br>**CANIATÁU**<br>Y cais yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w gadarnhau. Amodau i gael eu drafftio ac ymgynghori gyda'r Aelodau lleol arnynt.<br>Cymerwyd y penderfyniad, oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm a ganlyn:<br>Bod y safle tu allan i'r AHNE a bod tyrbinau wedi'u lleoli'n barod tu allan i'r Ardal Safle Strategol |
| 41/2010/1177/PF | **SIARADWR YN ERBYN: MR E WILLIAMS (AR RAN MR & MRS COLLINS)**<br>Ar ôl ystyried deuddeg llythyr ychwanegol o sylwadau oddi wrth: Gyngor Cymuned Bodfari, Cyd-bwyllgor Ymgynghorol, AHNE Bryniau Clwyd; V Cotgreve, Prifathro, Ysgol Bodfari: C McCallion Davies; C S Roberts, Prifathro, Ysgol Gymunedol Iau Heulfre; D J ac A Watkin; G ac L Cavill; R Williams; A Collins; E Williams; E Jeeps; N R Jones.<br>Codi adeilad ar wahân i ddarparu ystafell ddosbarth, swyddfa, cegin a thoiled dŵr a gosod tanc septig newydd a pharhau i ddefnyddio canolfan addysg a hyfforddiant wedi'i seilio ar goetir am hyd at 200 diwrnod o'r flwyddyn a 2 adeiladwaith ysgol Coedwig mewn coetir o'r enw'r Warren<br>**Warren Woods Ltd, Y Warren, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych**<br>**CANIATÁU**<br>Amodau gyda newidiadau iddynt ac amodau ychwanegol<br>Penderfynwyd adolygu a newid yr amodau:<br>2. O ran y defnydd ar gyfer addysg wedi'i seilio ar goetir ac fel canolfan hyfforddi:<br>a. Caniateir i'r defnydd ddigwydd ddim ond hyd at ddim mwy na 200 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr.<br>b. Bydd yr ymgeisydd neu'r bobl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyrsiau ar y safle'n cadw cofrestr wedi'i diweddaru o'r cyrsiau a gynhelir, y dyddiadau y cynhelir hwy ac enwau a chyfeiriadau'r rhai sy'n eu mynychu. Bydd y gofrestr ar gael i'w gweld pan ofynnir am hynny gan swyddogion o'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Yr ymgeisydd a'r person(au) a enwebir ganddynt fydd yn gyfrifol am gadw'r gofrestr.<br>6. Yr unig dir i'w ddefnyddio i barcio cerbydau ar gyfer pobl sy'n mynychu'r addysg a hyfforddiant wedi'i seilio ar goetir fydd y tir y cyfeirir ato fel E2 ar y cynllun o'r safle ac ni chaiff unrhyw gerbydau'n |

ymwneud gyda'r defnydd hwnnw eu parcio mewn unrhyw le arall ar y safle.
8. Bydd yr adeilad ystafell ddosbarth a ganiateir trwy hyn yn cael ei ddefnyddio ddim ond mewn cysylltiad gyda'r ganolfan addysg a hyfforddiant ac ni chaiff unrhyw adeilad ar y safle ei ddefnyddio fel llety dros nos ar unrhyw adeg.
10. Pan fydd yr adeilad ystafell ddosbarth newydd yn dechrau cael ei ddefnyddio, bydd yr adeilad presennol y cyfeirir ato fel E1 ar y cynllun o'r safle yn cael ei ddefnyddio ddim ond fel lle storio a gweithdy.
Ychwanegu amod newydd – dim aros dros nos mewn unrhyw adeilad

42/2011/0399/PF

**SIARADWR YN ERBYN: MRS FRANCES ELCOMB**
Datganodd Cynghorydd Selwyn Thomas fuddiant yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr tra roedd yn cael ei ystyried a chymrodd Cynghorydd Ray Bartley y Gadair.
Newidiadau i safle i ganiatáu darpariaeth ar gyfer 3 carafán statig ychwanegol at ddefnydd gwyliau
**Parc Carafanau Carmel, Bryniau, Dyserth, Y Rhyl**
**CANIATAU**

Amod wedi'i adolygu
3. Bydd y cynllun plannu a gymeradwywyd yn ymgorffori'r manylion fel y cymeradwywyd o dan Amod 2 o'r caniatâd hwn ac yn cael ei weithredu yn ei gyfanrwydd yn ddim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl gosod yn eu lle'r 3 carafán ychwanegol a gymeradwyir trwy hyn.

43/2011/0262/PO

Datblygu 0.03 ha o dir trwy ddymchwel toiledau cyhoeddus sy'n bodoli'n barod, codi un annedd newydd ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cais amlinellol yn cynnwys mannau mynediad)
**Cyn Doiledau Cyhoeddus, Ffordd Melyd, Prestatyn**
**CANIATAU**

47/2010/0887/PF

Datganodd Cynghorydd Selwyn Thomas fuddiant yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr tra roedd yn cael ei ystyried a chymrodd Cynghorydd Ray Bartley y Gadair.
Bwriad i newid defnydd i fod yn gyfleuster gwersylla ar gyfer pebyll, newidiadau i'r mynediad presennol i gerbydau, codi adeilad bloc cawod/toiled a gosod carthbwll newydd
**Corn Bwch, Waen, Llanelwy**
**CANIATAU**
Amod ychwanegol
12. Os bydd y defnydd fel gwersyll ar gyfer pebyll yn dod i ben, bydd y bloc cawod/toiledau'n cael ei symud oddi ar y safle a'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol o fewn 12 mis i'r adeg daw'r defnydd i ben.
Rheswm: Mae'r bloc cawod/toiled wedi cael ei ganiatáu ddim ond er mwyn gwasanaethu'r defnydd fel gwersyll pebyll a dylid ei symud oddi yno er budd amwynder gweledol os nad yw'r angen amdano'n parhau

## 88 EITEMAU GORFODI

ENF/2011/0007 Llidiart a ffordd fynediad heb ganiatâd

**White Water Country Manor, (cae gyferbyn â Phlas Derwen), Ffordd yr Abaty, Llangollen**
Penderfynwyd: Bod y Pwyllgor Cynllunio'n awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y llidiart heb ganiatâd ac

adfer y tir lle mae'r gwaith peirianneg i godi'r ffordd fynediad wedi digwydd o fewn 3 mis.
Gweithredu i erlyn lle mae unrhyw berson y cyflwynwyd Rhybudd Gorfodi arnynt yn methu neu'n gwrthod â chydymffurfio gyda'r gofynion hynny o fewn y cyfnod amser a enwir.

ENF/2011/0006 Gwaith peirianyddol heb ganiatâd
**Pantyterfyn, Ffordd Rhydtalog, Graianrhyd**
Penderfynwyd: Bod y Pwyllgor Cynllunio'n awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gorfodi gyda chyfnod cydymffurfio o 3 mis, yn galw am adfer y tir i'r lefelau yr oedd cyn i'r gwaith peirianyddol gael ei wneud.
Gweithredu i erlyn lle mae unrhyw berson y cyflwynwyd Rhybudd Gorfodi arnynt yn methu neu'n gwrthod â chydymffurfio gyda'r gofynion hynny o fewn y cyfnod amser a enwir.

ENF/2011/0003 Ffens heb ganiatâd ger priffordd
**Bodaeron, Mount Street, Rhuthun**
**GWRTHOD**
Penderfynwyd: Bod y Pwyllgor Cynllunio'n awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gorfodi gyda chyfnod cydymffurfio o 1 mis, yn galw am dynnu'r ffens, pyst ac unrhyw ddeunydd arall cysylltiedig ymaith o'r tir ac adfer y briffordd.
Gweithredu i erlyn lle mae unrhyw berson y cyflwynwyd Rhybudd Gorfodi arnynt yn methu neu'n gwrthod â chydymffurfio gyda'r gofynion hynny o fewn y cyfnod amser a enwir.

**89 ADRODDIAD GWYBODAETH – 5 MANOD ROAD, PRESTATYN**

Cafwyd adroddiad oddi wrth Claire Myatt, Cyfreithiwr, yn rhoi eglurhad oddi wrth Wasanaethau Cyfreithiol o pam fod yr erlyniad yn erbyn perchnogion yr eiddo uchod wedi cael ei dynnu'n ôl erbyn hynny.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad fel gwybodaeth*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

********